# Deddf Rhentu Cartrefi (Cymru) 2016

**2016 dccc 1**

## RHAN 5

DARPARIAETHAU NAD YDYNT OND YN GYMWYS I GONTRACTAU DIOGEL

## PENNOD 6

DARPARIAETHAU NAD YDYNT OND YN GYMWYS I GONTRACTAU DIOGEL GYDA LANDLORDIAID CYMUNEDOL

### 118 Trosglwyddo i ddeiliad contract diogel arall

(1) Caiff deiliad y contract o dan gontract diogel y mae'r landlord oddi tano yn landlord cymunedol drosglwyddo'r contract fel y disgrifir yn yr adran hon, ond dim ond os yw'r landlord yn cydsynio.

(2) Caiff deiliad y contract drosglwyddo'r contract i berson—

- (a) sydd, cyn y trosglwyddiad, yn ddeiliad contract o dan gontract diogel y mae'r landlord oddi tano yn landlord cymunedol, a
- (b) a fydd, yn union cyn y trosglwyddiad, yn peidio â bod yn ddeiliad y contract o dan y contract a grybwyllir ym mharagraff (a).

(3) Mae'r adran hon yn ddarpariaeth sylfaenol sydd wedi ei hymgorffori fel un o delerau pob contract diogel y mae'r landlord oddi tano yn landlord cymunedol.

### 119 Trosglwyddo i ddeiliad contract diogel arall: cydsyniad y landlord

Pan fo landlord yn gwrthod cydsynio neu'n cydsynio yn ddarostyngedig i amodau i drosglwyddiad a ddisgrifir yn adran 118, mae'r hyn sy'n rhesymol at ddibenion adran 84 (cydsyniad y landlord) i'w benderfynu gan roi sylw i Atodlen 6.